

SONIA EDWARDS

# tri

*'Er cymaint*
*dwi'n licio*
*Richard Osman,*
*dwi'n licio Sonia Edwards*
*yn well!'*

Bethan Mair

# Tri

Sonia Edwards

## Sbarcs

Welodd o erioed gymaint o wreichion yn dod o rywbeth mor oer. Daliai'r gemydd y diemwnt i'r golau. Creu'r sbarcs. A'r un golau wedyn yn dawnsio oddi ar ei ddannedd llygad gwynion.

'Mae pobol yn lladd am gerrig fatha'r rhain, 'sti.'

Anodd dallt bod perchennog siop yn dweud peth mor beryglus am ei nwyddau'i hun. Ond mi ddalltodd wedyn, pan oedd hi'n rhy hwyr. Nid y dyn hefo'r dannedd blaidd, a gododd o farw'n fyw er mwyn dod i edrych amdano fo, oedd y gemydd go iawn. Roedd o'n rhan o'r set-ỳp. Hwnnw, a'i wên anifeilaidd, a'i gontacts ar y tu mewn, a drefnodd ei barsel o jiwing-gym a sigaréts: gwobrau cysur i gymryd arno fod ganddo gydwybod. I'w gael o drwyddi.

Ddaru nhw ddim.

Mi fasa isio uffar o lot o smôcs i bara deunaw mlynedd yn y slamar.

Mae o'n dal i gofio, hyd yn oed yn ei gwsg – o, yn enwedig yn ei gwsg – lyfnder y cas gwydr hwnnw'n oerach na gwn dan flaenau'i fysedd. Ac yn llygad pob hunllef, mae o'n gweld y rhesi modrwyau'n wincio arno, yn cwffio am eu gwynt fatha gweision neidar wedi'u caethiwo ar gam.

## Llgada brown, hogyn iawn; llgada glas, hogyn cas …

Mae Mona Lisa'n dilyn cwrs coleg mewn Ffasiwn a Thecstiliau. Mae ganddi lygad am liw. Am y manylion. Mae hi'n artistig. Mi fasa gofyn iddi fod, basa, hefo enw fel sydd ganddi hi? Enw'i nain ydi Mona. A Lisa? Wel, ar ôl yr enwog Lisa Marie, merch Elvis, y bu hi'n ffodus o gael hwnnw. Mae'i rhieni hi'n siwpyr-ffans, a'i thad hyd yn oed wedi dynwared Elvis unwaith mewn cyngerdd i godi arian at yr Ambiwlans Awyr.

O leia roedd yr achos da ynddo'i hun yn cynnig rhyw gymaint o gyfiawnhad dros y fflêrs embarasing, a defnydd tenau'r siwt ddeimonds wen honno oedd yn tynnu ar draws ei frest o fatha tasa 'na gini-pig blewyn hir yn trio dingyd rhwng dannedd y sip.

A dyna hyd a lled diwylliant ei thad a'i mam. Maen nhw'n bobol iawn, yn gariadus a ffeind ac yn meddwl y byd o'u hunig ferch. Ond wedi dweud hynny, feddylion nhw erioed ryw lawer tu allan i'r bocs. Yn enwedig wrth ei bedyddio hi. Diolcha hithau mai Lisa maen nhw wedi'i galw hi erioed, ac nad ydi'r Mona-i-blesio-hen-wraig yn ddim ond blip ar dystysgrif geni na welith fawr neb mohoni byth.

Lisa, felly, sydd ar ei bathodyn heno. Dydi hi ddim yn gweld pwynt hynny, chwaith. Pam fod rhaid cyhoeddi enwau pawb sy'n gweithio yma i bob dieithryn, beth bynnag? Does ganddi hi ddim syniad beth ydi enw hwn sy'n ista wrth y bwrdd 'ma heno, a does ganddi hi ddim hawl i ofyn. Mae hi'n rhoi cipolwg ar y cloc mawr plastig ar y wal gyferbyn. Wyth. Mae'i shifft hi'n gorffen mewn awr, ac mae Denise wedi cau'r ffrïwr tships i lawr. Dim ond eu hogla nhw sy'n aros, yn barod i ddod adra hefo hi wedyn yng ngwead ei blows ac yng nghudynnau'i gwallt pinc. Mae hi'n falch mai dim ond joban gyda'r nos ydi hon, pres pocad nes bydd hi'n gorffen ei chwrs coleg. Rhyw ddiwrnod, mi fydd hi'n cynllunio dillad i gwmni mawr, ac ogla Miss Dior fydd arni, nid ogla Mazola Corn Oil …

'Te bildar. Mỳg.'

Mae o wedi bod yn ista yno yn ei gwman ers cyhyd fel bod ei glywed o'n siarad o gwbwl yn syndod bron, yn darfiad, fel car yn bacffeirio yn y stryd tu allan, neu daran annisgwyl: pell, ond yn dal yn fygythiad. Hyd yn oed rŵan, dydi o ddim yn codi'i ben o'i bapur newydd, dim ond yn cribinio drwyddo eto ac eto, drosodd a throsodd, fel petai o'n disgwyl canfod atebion i gyfrinachau'r bydysawd rhwng ei blygion anwastad.

Mae hi wedi bod yn ei wylio ers sbel, ers iddo gymryd arno'i fod o'n astudio'r esgus o fwydlen rhag gorfod gofyn am ei banad yn gynt. Dyna un ddawn sydd gan y ddwy Fona Lisa'n gyffredin – y gallu i gadw rhywun yn eu golygon heb orfod symud eu llgada. Mae'r boi 'ma'n bownd o fod yn dynn ar ei hanner cant, ond mae'i ddillad o'n rong: yn hen, ac eto'n rhy ifanc iddo, y jîns llydan llac, y trênyrs, y gôt camo, y mwclis diarth o gregyn bychain bach sy'n edrych yn anghyfforddus am ei wddw. Ffasiynau roedd dynion ifanc ar ddechra'r mileniwm yn eu dilyn ydyn nhw, steiliau 'fintej' sy'n dechra gwneud cỳm-bac. Ond nid ar foi fatha hwn. Mi fasa trênyrs 'retro' newydd yn lân ac yn ffresh. Mae'r rhain sydd am ei draed o mor dreuliedig mae hi'n anodd gwybod pa liw oedden nhw'n wreiddiol, ac mae hi wedi cymryd oes pys i'r rhimyn du tu mewn i goler ei siaced armi fagu cymaint o sglein.

Mae o'n talu i'r geiniog am ei fygiad o de, yn taro'r newid mân ar y bwrdd yn syth fatha cowboi mewn salŵn, yn lle'i yfed yn gynta a mynd at y cownter wedyn i ofyn am y bil fel pawb arall. A dyna pryd mae hi'n sylwi nad ydi o ddim fel pawb arall. Ddim cweit. Ac nid oherwydd ei fod o'n ymddangos mor ddi-glem, fel ymwelydd o gyfnod arall sydd newydd gamu allan o beiriant amser. Nid dyna'n unig ydi o. Ond oherwydd iddo godi'i ben am y tro cynta, a syllu arni.

Un yn frown, a'r llall yn las.

Dydi'i llgada fo ddim 'run lliw.

bwthyn

GWASG Y BWTHYN